

Jake Morgan  
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol  
Cyngor Sir Gâr  
Neuadd y Sir  
Sir Gâr  
SA31 1JP

Dyddiad: 04 Dachwedd 2021

Annwyl Gyfarwyddwr,

## **Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) - Archwiliad Sicrwydd 2021: Cyngor Sir Gâr**

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi canfyddiadau ein archwiliad sicrwydd a gynhaliwyd rhwng 1 Chwefror a 5 Chwefror. Pwrpas yr archwiliad sicrwydd hwn oedd gweld pa mor dda y mae gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol yn parhau i helpu a chefnogi oedolion a phlant, gan ganolbwyntio ar ddiogelwch a llesiant.

### **Trosolwg**

Ym mis Mawrth 2020, gohiriodd AGC ei rhaglen arferol mewn ymateb i bandemig COVID-19 er mwyn galluogi darparwyr ac awdurdodau lleol i ganolbwyntio'n llawn ar ymateb i'r amgylchiadau heriol. Ailddechreuodd rhaglen ddiwygiedig gydag awdurdodau lleol ym mis Medi er mwyn rhoi sicrwydd ynghylch sut mae pobl yn cael eu diogelu a sut mae eu llesiant yn cael ei hyrwyddo yn ystod y pandemig. Gwnaethom ystyried diogelwch a llesiant y bobl sy'n defnyddio gwasanaethau, neu y gall fod angen iddynt eu defnyddio, diogelwch y gwasanaethau y maent yn eu defnyddio a diogelwch a llesiant y bobl sy'n gweithio yn y gwasanaethau hynny. Roedd ein prif lwybrau ymholi yn seiliedig ar bedair egwyddor Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ac rydym wedi cofnodi ein barnau a'n canfyddiadau yn unol â'r rhain: Pobl – Llais a Rheolaeth, Atal, Partneriaethau ac Integreiddio, Llesiant.

### **Gwnaethom ganolbwyntio ar y canlynol:**

1. Pa mor dda y mae'r awdurdod lleol yn cyflawni ei swyddogaethau statudol o ran cadw pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt a gofalwyr y mae angen cymorth arnynt yn ddiogel, a hyrwyddo eu llesiant, yn ystod y pandemig?
2. Beth mae'r awdurdod lleol yn ei wneud fel nad oes angen i blant dderbyn gofal; ac a yw plant yn dychwelyd adref i'w teuluoedd yn ddigon cyflym, lle mae'n ddiogel iddynt wneud hynny?

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)  
Swyddfa Llywodraeth Cymru  
Sarn Mynach  
Cyffordd Llandudno  
LL31 9RZ  
www.arolygiaethgofal.cymru

☎ 0300 790 0126  
✉ CIW@gov.wales

Care Inspectorate Wales (CIW)  
Swyddfa Llywodraeth Cymru  
Sarn Mynach  
Cyffordd Llandudno  
LL31 9RZ  
www.careinspectorate.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

3. Pa mor dda y mae'r awdurdod lleol yn darparu cymorth cynnar, gofal a chyfnodau pontio di-dor rhwng gwasanaethau i blant anabl a'u teuluoedd?

### **Crynodeb o'r canfyddiadau a blaenoriaethau ar gyfer gwella:**

**Pobl – llais a rheolaeth – Gwnaethom ofyn:** Pa mor dda y mae'r awdurdod lleol yn sicrhau bod lleisiau pobl, gofalwyr ac ymarferwyr yn cael eu clywed, eu bod yn gwneud dewisiadau ar sail gwybodaeth, ac yn cynnal rheolaeth dros eu bywydau, gan gydbwysu hefyd yr argymhellion a'r gofynion a wnaed gan Iechyd Cyhoeddus Cymru a Llywodraeth Cymru er mwyn cyfyngu ar ledaeniad COVID-19?

Ar y cyfan, gwelsom fod yr awdurdod lleol yn sicrhau bod lleisiau'r bobl yn cael eu clywed, bod eu dewisiadau'n cael eu parchu a bod y bobl yn cyflawni canlyniadau a nodwyd ganddynt yn bersonol yn rheolaidd. Mae'r arweinwyr yn goruchwylio ymarfer rheng flaen gyda chynlluniau clir sydd wedi arwain at arferion creadigol.

Roedd amgylchiadau pobl yn cael eu disgrifio yn y ffeiliau a welsom, ac roedd elfen bersonol wedi'i nodi mewn asesiadau ac yn y cynlluniau gofal a chymorth. Roedd dadansoddiad gan yr ymarferwyr yn glir a phenodol, gyda chydbwysedd da o wybodaeth a oedd yn gymesur â'r amgylchiadau. Darparodd hyn dystiolaeth o ymarferwyr a oedd yn blaenoriaethu ac yn canolbwyntio ar ddeall bywyd y bobl roeddent yn gweithio gyda nhw. Er enghraifft, gwnaethom edrych ar ddulliau ymyrraeth ddiogelu lle gwnaeth yr ymarferwyr gysylltiadau â'r trydydd sector (Tir Dewi a oedd yn darparu cymorth ar y fferm) a chymorth lleol arall i gyflawni'r canlyniadau a nodwyd gan yr unigolyn.

Roedd y pobl yn gallu dylanwadu ar y gwasanaethau a gawsant ac roedd y gwasanaeth eirioli yn eu cefnogi fel y bo'n briodol. Mae hyn yn cefnogi ffocws ar yr hyn sy'n bwysig i bobl, y canlyniadau y maent am eu cyflawni, a'r ffordd y gallant ddefnyddio eu cryfderau a'u hadnoddau eu hunain i hyrwyddo eu llesiant eu hunain. Gwnaeth yr asesiadau o alluedd meddyliol a welsom ddangos bod systemau a phrosesau cadarn ar waith er mwyn sicrhau bod galluedd meddyliol y bobl yn cael ei asesu'n briodol yn ôl yr angen. Dywedodd partneriaid iechyd fod cysylltiadau cryf rhwng meysydd gofal cymdeithasol ac iechyd ar gyfer y broses hon.

Gwelsom nifer o enghreifftiau o daliadau uniongyrchol a oedd yn helpu'r bobl i gael hyblygrwydd o ran y cymorth a'r gofal a gawsant. Rhoddir cyfle i'r bobl, gan gynnwys y gofalwyr, deilwra a rheoli eu gofal eu hunain drwy ddefnyddio taliadau uniongyrchol. Roedd dystiolaeth o daliadau uniongyrchol yn cael eu defnyddio yn ystod y pandemig fel dull o ddarparu gofal seibiant amgen. Gwelsom achosion o anghenion y gofalwyr yn cael eu hystyried a'u cefnogi ochr yn ochr â'r unigolyn a oedd yn derbyn gofal – ystyriwyd y rhain yn aml mewn asesiad holistaidd ac integredig. Cydnabuwyd bwriad clir i gefnogi'r gofalwyr yn ystod y pandemig; er enghraifft, dywedodd un gofalwr wrthym am y ffordd roedd yn gallu cadw swydd yn ystod y pandemig gyda'r cymorth a ddarperir.

Cydnabuwyd anghenion gofalwyr hefyd yn y gwasanaethau plant ac ymatebwyd iddynt gyda chymorth yn amrywio o gymorth ariannol ac ymarferol i gymorth therapiwtig, i gyd ar gael yn ôl yr angen. Gwelsom fod yr ymarferwyr yn gweithio i sicrhau ymrwymiad rhieni mewn amgylchiadau cymhleth. Lle roedd cyfrifoldeb yn cael ei rannu rhwng yr awdurdod lleol a'r rhieni, roedd dystiolaeth glir bod y rhieni'n cymryd rhan neu fod ymgais i'w cynnwys

yn y broses o wneud penderfyniadau drwy fod yn bresennol mewn cyfarfodydd cyfreithiol, cynadleddau ac adolygiadau.

Gwelsom fod y 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg yn cael ei hyrwyddo gan gydnabod iaith gyntaf y bobl, a gwasanaethau'n cael eu darparu yn newis iaith y bobl. Caiff iaith ddewisol ei chydabod fel ffactor allweddol o ran meithrin cydberthnasau effeithiol rhwng pobl ac ymarferwyr. Mae'n bwysig bod yr awdurdod lleol yn adeiladu ar y 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y bobl hynny sy'n ddwyieithog ac yn cydnabod yn benodol eu dewis iaith wrth ddarparu gwasanaeth.

Mae daearyddiaeth a demograffeg yr awdurdod lleol yn cynnwys ardal fawr gydag amrywiaeth o wasanaethau sy'n cwmpasu ardaloedd poblog iawn a rhai ardaloedd gwledig anghysbell iawn. Roedd staff rhai gwasanaethau i oedolion yn awgrymu y gall fod yn anodd olrhain adnoddau gwirfoddol a rhai'r trydydd sector yn y gymuned. Mae gan hyn y potensial i gyfyngu ar opsiynau a'r wybodaeth sydd ar gael i'r bobl. Mae hwn yn faes y dylai'r awdurdod lleol ei adolygu er mwyn sicrhau bod y gweithlu'n gallu cael gafael ar wybodaeth am yr amrywiaeth o wasanaethau sydd ar gael.

Mae gan yr ymarferwyr barch mawr tuag at y rheolwyr y mae'n hawdd mynd atynt ac sy'n gefnogol. Mae gan yr awdurdod lleol ddiwylliant o gydweithredu a chanlyniadau personol a gaiff eu datblygu gyda'r bobl ac a gaiff eu hysgogi gan arweinwyr ym mhob rhan o'r sefydliad. Mae gan y staff gymhellant cyffredin i weithio'n brydlon ac yn effeithiol gyda theuluoedd. Mae dull seiliedig ar gryfderau clir wedi'i fabwysiadu ym mhob rhan o'r gwasanaeth, a oedd yn amlwg yn yr hyn a welsom am y ffordd roedd y gweithwyr cymdeithasol yn blaenoriaethu dulliau cyfathrebu. Roedd gan y gweithlu lefel uchel o gymhwysedd o ran sut i weithio gyda'r bobl – mae hyn wedi'i gynnal hyd y bo modd yn ystod y pandemig. Dywedodd y staff wrthym fod hyfforddiant ar-lein wedi bod ar gael a'i fod yn hygyrch i bartneriaid. O ystyried amgylchiadau'r pandemig, gwelsom fod morâl y staff yn dda iawn.

**Atal - Gwnaethom ofyn:** I ba raddau y mae'r awdurdod lleol yn llwyddo i hybu prosesau atal a lleihau'r angen am fwy o gymorth neu gymorth ffurfiol gan asiantaethau statudol?

Gwelsom ddull integredig a chadarnhaol o ymdrin â diwylliant atal drwy gydweithio, seilweithiau cefnogol ym meysydd iechyd a gofal cymdeithasol a systemau cyflenwi cysylltiedig. Roedd hyn yn amlwg mewn dull darbodus o ddyrannu adnoddau, gan sicrhau bod y cymorth cywir ar gael ar yr adeg gywir. Mae hyn yn atal cynnydd mewn angen ac yn gwella ansawdd taith yr unigolyn drwy'r system iechyd a gofal cymdeithasol. Gwelsom fod gwasanaethau, megis y tîm Cymorth Iechyd Emosiynol, Ar Ffiniau Gofal a Camau Bach, wedi cael eu cynllunio a'u halinio i ganolbwyntio ar yr un nod. Cofnodwyd canlyniadau personol clir mewn ffeiliau, a oedd yn bwysig iawn mewn sefyllfaoedd cymhleth a oedd yn gofyn am gydlynw cymorth i fynd i'r afael ag angen cymwys.

Mewn gwasanaethau i oedolion, mae'r prosiect Delta Connect wedi llwyddo i hybu prosesau atal ac ymyrraeth gynnar, gan leihau'r angen am fwy o gymorth neu gymorth ffurfiol gan asiantaethau statudol. Roedd y staff a'r rheolwyr yn deall bod angen sicrhau bod y bobl yn cael gofal a chymorth priodol, a'i bod yn bwysig gwneud y defnydd gorau o adnoddau, yn enwedig yn ystod y pandemig. Gwelsom dystiolaeth o fwy o ddefnydd o dechnoleg i gefnogi diogelwch y bobl, ac er mwyn lleihau unigrwydd ac ynysu. Darparwyd cyfarpar unigol pwrpasol i gefnogi llesiant y bobl gyda chynlluniau'n cael eu monitro drwy

alwadau rhagweithiol ac ymateb lles 24/7 yn canolbwyntio ar atebion cymunedol. Roedd hyn yn galluogi'r bobl i gael eu cefnogi gartref, gan osgoi'r angen i fynd i'r ysbyty neu ofal preswyl lle bynnag y bo'n bosibl.

Dyweddodd yr ymarferwyr bod ffocws ar wasanaethau atal yn yr awdurdod lleol, a bod adnoddau cam-i-lawr a chymunedol ar gael i gefnogi pobl. Nid yw llawer o'r gwasanaethau wedi bod ar gael yn ystod y pandemig, ond clywsom am rai cymunedau'n dod at ei gilydd ac yn datblygu gwasanaethau.

Mewn ymateb i'r pandemig gwnaed buddsoddiad i gefnogi ysbytai aciwt ac ysbytai maes, gyda'r awdurdod lleol yn penodi rheolwr tîm i hwyluso'r broses o ryddhau cleifion o Ysbyty Cyffredinol Glangwili ac Ysbyty'r Tywysog Philip a chefnogi ysbytai maes. Ers mis Tachwedd 2020, mae'r swyddogion Llesiant wedi bod yn hwyluso'r broses o ryddhau cleifion o'r ysbyty, yn enwedig ar gyfer y bobl hynny nad oes ganddynt anghenion cymwys ar gyfer gofal a chymorth. Mae ymatebwyr cymunedol yn wasanaeth arall y mae'r awdurdod lleol wedi'i gomisiynu drwy Delta, gan ddefnyddio cyllid Trawsnewid. Mae ymatebwyr cymunedol wedi helpu'r bobl i aros gartref yn hytrach na mynd i'r ysbyty, ac maent hefyd wedi helpu'r bobl i setlo nôl yn eu cartrefi ar ôl mynd i'r ysbyty.

Gwelom ddiwylliant calonogol o staff yn cydweithio tuag at yr un nod. Roedd y gwasanaeth yn deall y dull o weithio gyda theuluoedd. Roedd dealltwriaeth gyffredin mewn gwasanaethau plant ac oedolion. Mewn gwasanaethau plant, roedd y cyfarfodydd pod wedi hen ymsefydlu ac yn system effeithiol a chefnogol ym marn y staff iddyn nhw a'r teuluoedd roeddent yn eu cefnogi. Mae'r cyfarfodydd hyn yn cyfuno dull seiliedig ar systemau a chryfderau o werthuso gwaith gyda theuluoedd.

Canfu ein hadolygiad o'r ffeiliau ymyriadau amserol a chymesur i gefnogi annibyniaeth y bobl a'u galluogi i aros gartref gyda'u teuluoedd pan oedd yn ddiogel iddynt wneud hynny, gan ystyried dymuniadau unigol. Mewn gwasanaethau plant, cafodd risgiau eu gwerthuso'n ddynamig er mwyn sicrhau bod penderfyniadau i annog pobl symud i ofal yn cael eu gwneud ar adegau pan oedd trothwyon perthnasol yn cael eu bodloni. Gwelsom ymyrraeth gynnar i fynd i'r afael â phroblemau cyn iddynt waethygu; mae hyn yn gwneud cyfraniad pwysig at leoliadau mwy sefydlog a diogelwch gwell i'r plant. Roedd cymorth lleoliad yn amlwg yn nifer o'r ffeiliau a welsom.

**Partneriaeth ac Integreiddio – Gwnaethom ofyn:** I ba raddau y mae'r awdurdod lleol yn gallu sicrhau ei hun ei fod yn achub ar gyfleoedd i weithio mewn partneriaeth mewn ffordd gadarnhaol, er mwyn gwneud y gorau o gynlluniau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a sicrhau y darperir gwasanaethau integredig a'u bod yn gynaliadwy?

Ar lefel yr unigolyn, gwelsom fod gwasanaethau'n cydgynhyrchu yn seiliedig ar gydberthynas gyfartal rhwng yr ymarferwyr a'r bobl roedd angen gofal a chymorth arnynt, a'r gofalfwyr roedd angen cymorth arnynt. Roedd llwyddiant yn cael ei fesur drwy gasglu gwybodaeth er mwyn gweld a oedd cymorth yn cyflawni'r pethau a oedd yn bwysig i'r bobl. Roedd tystiolaeth o ymarferwyr yn meithrin cydberthnasau gwaith proffesiynol â phobl ar sail cydweithrediad a dealltwriaeth a rennir o'r hyn sy'n bwysig. Roedd y bobl yn cael eu cefnogi i nodi'r hyn a oedd yn bwysig iddynt a'r ffordd y gallent gyflawni eu canlyniadau llesiant personol. Disgrifiwyd y canlyniadau'n glir a nodwyd y camau i'w cyflawni.

Cawsom sgysiau â'r rhai sy'n gadael gofal am eu profiadau cadarnhaol; roedd nifer ohonynt yn parhau i gael eu cefnogi gan rieni maeth, ac roedd eraill o dan drefniadau *Pan Fydda i'n Barod*, ac mewn addysg bellach.

Roedd partneriaethau'n gweithio'n dda ar bob lefel ac yn darparu dull cynaliadwy integredig o ddiwallu anghenion a hyrwyddo llesiant, yn unol â deddfwriaeth a disgwyliadau. Roedd y gwaith cydgynhyrchu'n fanwl ac roedd cymunedau'n cymyd rhan ynddo.

Dangosodd yr awdurdod lleol fod cyfleoedd ar gyfer gweithio mewn partneriaeth â chydweithwyr iechyd wedi cael eu hyrwyddo'n gadarnhaol ac yn llwyddiannus i greu canlyniadau cadarnhaol i'r bobl. Mae gwasanaethau a swyddi integredig wedi darparu'r sylfeini ar gyfer cydweithio ym mhob rhan o'r maes iechyd a gofal cymdeithasol. Gwelsom fod ymarferwyr o sectorau a gwasanaethau gwahanol yn gwrthio gyda'i gilydd yn effeithiol. Mae hyn yn bwysig, gan fod gwaith partneriaeth effeithiol yn cyfrannu at gynlluniau seiliedig ar gryfderau ac sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, sy'n gwireddu'r potensial ar gyfer mwy o annibyniaeth. Dywedwyd wrthym y gallai anghydfodau godi am gyllid rhwng pecynnau gofal iechyd a gofal cymdeithasol a dehongliadau gwahanol am yr ymarferydd rheoli gofal arweiniol. Ni welsom unrhyw dystiolaeth o effaith andwyol ar y bobl o ganlyniad i hyn.

Nododd ein hadolygiad o'r ffeiliau bod asiantaethau'n rhannu gwybodaeth. Dywedwyd wrthym fod hyfforddiant rhanbarthol amlasiantaethol yn cael ei gynllunio i hyrwyddo'r gwaith o rannu gwybodaeth ymhellach ar draws asiantaethau. Pan nodwyd bod y plant neu'r oedolion yn wynebu risg o niwed, cynhaliwyd cyfarfodydd strategaeth mewn modd amserol, ac roedd y gweithwyr proffesiynol a oedd yn bresennol yn rhannu gwybodaeth i lywio'r broses o wneud penderfyniadau. Ar gyfer plant ac oedolion, hyd yn oed pan nad oedd penderfyniadau'n cael eu croesawu, roedd ffocws ar ymgysylltu rhwng yr ymarferwyr a'r bobl yn sicrhau bod y rhain yn cael eu derbyn yn ddidwyll a bod y bobl yn deall yr hyn a ddisgwyliid ganddynt.

Roedd pwyslais cryf ar ddisgyblaethau proffesiynol yn gweithio gyda'i gilydd; er enghraifft, roedd seicolegydd addysg yn rhan o'r Tîm Anableddau 0-25 ac roedd swyddi arbenigol eraill yn y tîm hwn yn darparu gwybodaeth arbenigol. Cawsom ymateb cadarnhaol gan y staff am y newidiadau strwythurol a ddigwyddodd i'r Tîm 0-25 y llynedd.

Gwelsom sut roedd staff yr ysgol a'r staff addysg yn gweithio'n agos gyda'r gweithwyr cymdeithasol; roedd yr athrawon yn darparu amgylchedd magwrus ar gyfer y plant agored i niwed ac yn cyfrannu'n llawn at y gofal a'r cymorth. Gwelsom fod gwasanaethau a gomisiynwyd drwy gydweithwyr addysg yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i ganlyniadau'r plant. Mewn gwasanaethau plant, clywsom am gydberthnasau da â phediatregwyr ond buddiannau mwy cyfyngedig o ryngweithio â Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS).

Dywedodd darparwyr wrthym am ddulliau cyfathrebu a chyfarfodydd cadarnhaol â chomisiynwyr awdurdodau lleol yn ystod y pandemig. Gwnaethant ddweud bod dulliau cyfathrebu da a diwylliant o gydweithio a gwneud penderfyniadau gyda'i gilydd. Clywsom am y ffordd roedd y gydberthynas rhwng y darparwyr a'r timau rheoli gofal wedi cael ei hatgyfnerthu yn ystod y pandemig.

Mae'r ffaith bod llai o gapasiti mewn rhai sefydliadau partner yn ystod y pandemig wedi bod yn her i'r awdurdod lleol; er enghraifft, dywedwyd wrthym fod nyrsys ysgol wedi cael eu

hadleoli a bod ymarferwyr awdurdodau lleol o'r farn bod hyn wedi rhwystro'r broses asesu a chynllunio. Roedd rhai gwasanaethau yn y Trydydd Sector yn gyfyngedig o ran eu gallu i gynnig cymorth o ganlyniad i reolau llym COVID-19; rhoddodd hyn faich ychwanegol ar ymarferwyr rheng flaen. I'r gwrthwyneb, gwelsom fod cyfarfodydd diogelu wedi parhau drwy gyfnod y pandemig a dywedodd yr ymarferwyr fod cyfarfodydd o bell wedi arwain at bresenoldeb gwell gan bartneriaid.

**Llesiant – Gwnaethom ofyn:** I ba raddau y mae'r awdurdod lleol yn hybu llesiant, gan sicrhau bod pobl yn aros yn ddiogel ac yn cyflawni canlyniadau cadarnhaol sydd o bwys iddynt?

Mae'r awdurdod lleol wedi arfer ei swyddogaethau o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 er mwyn sicrhau ei fod yn cyfrannu'n gadarnhaol at lesiant pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt a gofaluwr y mae angen cymorth arnynt. Ar lefel unigolyn, mae hyn wedi cynnwys gofyn beth yw dymuniadau a theimladau'r unigolyn, bod yn barchus tuag ato, ac adeiladu ar ei amgylchiadau a'i alluoedd. Roedd gweithio mewn partneriaeth â'r bobl i ddatblygu atebion creadigol yn amlwg, gan wella ansawdd gofal, sicrhau llesiant a datblygu anghenion y bobl am ofal a chymorth. Roedd nodi canlyniadau'r bobl yn flaenoriaeth yn hytrach na phroses.

Cafwyd ymateb cydweithredol i'r pandemig gan bob asiantaeth, gan gynnwys datblygu Polisi Uwchgyfeirio rhanbarthol ar gyfer cartrefi gofal. Rhoddodd y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol drosolwg a sicrwydd mewn perthynas ag arferion diogelu ar gyfer plant ac oedolion agored i niwed. Yn ystod y pandemig, gwelsom ymdrechion yn cael eu gwneud i gadw mewn cysylltiad â phobl, gydag ymweliadau a chyfarfodydd statudol yn cael eu cynnal yn rhithwir, ond hefyd rywfaint o gyswllt wyneb yn wyneb a aseswyd ar gyfer risg, fel y bo'n briodol.

Mae'r awdurdod lleol wedi hyrwyddo llesiant y bobl yn effeithiol er mwyn sicrhau bod gofal a chymorth amserol ar gael i gynnal eu hannibyniaeth a'u diogelwch. Roedd hyn yn amlwg wrth i ni weld bod asesiadau'n cofnodi'n glir safbwyntiau gan ddefnyddio iaith syml, gyda phwyslais ar amgylchiadau personol, cryfderau, risg, rhwystrau a'r hyn sy'n gorfod digwydd i gyflawni canlyniadau personol. Roedd awgrymiadau Gofal yn Gyntaf yn ddefnyddiol. Roeddent yn galluogi'r ymarferwyr i fynegi'r hyn roeddent yn poeni amdano yn glir. Cafodd yr elfennau, y mae'r unigolyn sy'n ceisio cymorth a diogelwch yn eu dwyn i'r broses, eu cydnabod a'u gwerthfawrogi.

Roedd atebion a gafodd eu cydgynhyrchu yn amlwg ac roedd canlyniadau cadarnhaol i'r bobl a oedd yn destun ymyriadau diogelu. O'r ffeiliau y gwnaethom edrych arnynt, gwelsom fod ymholiadau ac ymchwiliadau diogelu wedi'u cynnal yn unol â gofynion statudol. Roedd cyfarfodydd a thrafodaethau strategaeth yn effeithiol ac yn cynnwys asiantaethau perthnasol. Gwelsom ddadansoddiad da o risgiau, a bod cynlluniau diogelu ar waith a bod camau'n cael eu cymryd yn ôl yr angen. Dywedodd darparwyr a phartneriaid eu bod yn cael cymorth gan y tîm diogelu oedolion; cydnabuwyd eu parodrwydd i gynnig cyngor, arweiniad a helpu gyda hyfforddiant gweithwyr gofal cymdeithasol. Nododd y cydweithwyr iechyd y byddai'r meysydd iechyd a gofal cymdeithasol yn gweithio ar y cyd ac mewn ffordd agored i nodi cyfleoedd dysgu, pan fyddai pethau'n mynd o chwith.

Roedd y cyfarfodydd pod mewn gwasanaethau plant yn hyrwyddo'n glir ddull holistaidd a seiliedig ar gryfderau o weithio gyda theuluoedd. Dangoswyd hyn mewn cofnodion a oedd

yn disgrifio'n glir y gwaith cynllunio sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau. Roedd y cynlluniau'n amlinellu nodau cyflawnadwy clir i ddiogelu'r plant a gwella eu llesiant drwy ddarparu amrywiaeth o wasanaethau sy'n gweddu orau i'w hanghenion. Gwnaethom fwrw golwg dros gynllun a oedd yn cynnwys mesurau risg llym i sicrhau diogelwch plentyn dros gyfnod y pandemig. Roedd hyn yn cynnwys ymweliadau dirybudd dyddiol a oedd yn canolbwyntio ar risg, a hefyd yn dangos tystiolaeth o ansawdd perthynas waith gadarnhaol rhwng y teulu a'r ymarferydd.

Gwelsom fod y gofal a'r cymorth yn cael eu haddasu i ddiwallu anghenion newidiol y bobl, a bod yr asiantaethau yn cyfrannu at y broses adolygu. Roedd cydberthnasau a chyfathrebu â phobl yn rhywbeth a wnaed ar y cyd yn y broses hon. Roedd sgysiau seiliedig ar gryfderau wedi disodli'r asesiadau traddodiadol sy'n seiliedig ar anghenion, ac roedd yr elfennau llais a dewis yn amlwg yn yr arferion a adolygwyd mewn gwasanaethau oedolion a phlant.

Roedd y ffeiliau a welsom yn dangos, er i bob ymdrech gael ei gwneud i gynnal annibyniaeth, fod oedolion hefyd yn cael eu cefnogi i wneud penderfyniadau pragmatig ynghylch pryd oedd yr adeg briodol i symud i gartrefi gofal er mwyn sicrhau y gallent gael eu cefnogi'n fwy diogel.

Mewn gwasanaethau plant, gwelsom gymorth effeithiol gan y grŵp amlasiantaeth, ac adolygiadau o safon dda ar gyfer plant sydd wedi bod mewn gofal dan arweiniad Swyddogion Adolygu Annibynnol. Roedd ganddynt system ar waith i geisio sicrwydd ynghylch llesiant rhwng adolygiadau ffurfiol ac i glywed gan blant a'u gofalwyr.

Roedd y rhai sy'n gadael gofal yn canmol y Cynorthwyr Personol yn fawr iawn ar y cyfan; roeddent yn gwerthfawrogi'r cymorth penodedig a ddarperir gan y Cynorthwyr Personol. Fodd bynnag, cafwyd rhywfaint o adborth am anghysondeb o ran cymorth.

### **Dull:**

- gwnaethom fwrw golwg dros y ddogfennaeth a ddarparwyd cyn ein hymweliad
- gwnaethom siarad â gofalwyr a phobl a oedd yn derbyn, neu wedi derbyn, gofal a chymorth, gan gynnwys naw unigolyn sy'n gadael gofal
- gwnaethom fwrw golwg dros 30 o ffeiliau
- gwnaethom gynnal 10 o gyfweiliadau olrhain achosion ag ymarferwyr, rheolwyr a gofalwyr
- gwnaethom gynnal pedwar grŵp ffocws
- gwnaethom gynnal naw arolwg
- gwnaethom arsylwi ar gyfarfod hyrwyddo gofalwyr

### **Y Camau Nesaf**

Rydym wedi nodi cryfderau a meysydd i'w gwella fel blaenoriaeth, a byddwn yn adolygu cynnydd y meysydd hyn drwy ein cyfarfodydd adolygu gwerthuso perfformiad â'r penaethiaid gwasanaeth a'r cyfarwyddwr. Rydym yn disgwyl y bydd y meysydd i'w gwella a nodwyd gennym yn cael eu cynnwys yng nghynlluniau gwella'r awdurdod lleol. Hoffem ddiolch i bawb a wnaeth ein helpu i gynnal y archwiliad sicrwydd hwn ac i'r bobl a'r staff hynny a siaradodd â ni.

Gweler ein Hysbysiad Preifatrwydd yn <https://arolygiaethgofal.cymru/sut-rydym-yn-defnyddioch-gwybodaeth-bersonol>

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Lou Bushell-Bauers', with a small flourish at the end.

**Lou Bushell-Bauers**  
Pennaeth Arolygu Awdurdodau Lleol  
**Arolygiaeth Gofal Cymru**